



Penderfynu ar y ffordd orau o bleidleisio

Bydd yr adran yma yn esbonio'r ffyrdd gwahanol o bleidleisio,
er mwyn i chi benderfynu ar y ffordd sydd orau i chi.

Penderfynu ar y ffordd orau o bleidleisio

Bydd yr adran yma yn esbonio'r ffyrdd gwahanol o bleidleisio, er mwyn i chi benderfynu ar y ffordd sydd orau i chi.

Byddwch chi'n cael gwybod am y canlynol:

1. Pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio
2. Pleidleisio drwy'r post
3. Pleidleisio drwy ddirprwy
4. Sut i bleidleisio yn etholiadau lleol 5 Mai 2022



Mae tair ffordd o bleidleisio – dewiswch yr un sydd fwyaf addas i chi.

Mewn gorsaf bleidleisio

Cyn etholiad, bydd cerdyn pleidleisio yn cael ei bostio atoch chi. Bydd eich cerdyn pleidleisio yn dweud wrthydd chi ble mae eich gorsaf bleidleisio. Gallwch chi bleidleisio eich hun yn eich gorsaf bleidleisio leol. Yn aml, mae eglwysi, canolfannau cymunedol ac ysgolion yn cael eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio. Ond gallan nhw fod mewn pob math o leoedd gwahanol.



Er mwyn gweld ble mae eich gorsaf bleidleisio, ewch i: www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr


Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Penderfynu ar y ffordd orau o bleidleisio



Drwy'r post

Os ydych chi am bleidleisio drwy'r post bydd angen i chi gysylltu â'ch tîm etholiadau lleol a byddan nhw'n anfon ffurflen atoch chi. Llenwch y ffurflen gais am bleidlais bost ac anfonwch hi i'ch tîm etholiadau lleol. Cyn etholiadau, byddwch chi'n cael papur pleidleisio yn y post.



Mae papur pleidleisio yn dangos rhestr o'r holl bobl y gallwch bleidleisio drostyn nhw mewn etholiad. Nodwch i bwy rydych chi am bleidleisio ar y papur pleidleisio.

I gael gwybod sut i gysylltu â'ch tîm etholiadau lleol, ewch i www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr

Drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu eich bod chi'n dewis rhywun arall i bleidleisio ar eich rhan chi. Rhaid iddo bleidleisio dros yr unigolyn neu'r bobl rydych am bleidleisio drosto/drostynt. Bydd angen i chi lenwi ffurflen newydd i ddewis pwy fydd yn pleidleisio drosoch chi. Gall y person yma fynd i'ch gorsaf bleidleisio neu wneud cais am bleidlais bost er mwyn gallu pleidleisio ar eich rhan chi.

Os ydych chi am bleidleisio drwy ddirprwy, bydd angen i chi gysylltu â'ch tîm etholiadau lleol a byddan nhw'n anfon ffurflen atoch chi. Llenwch y ffurflen gais pleidleisio drwy ddirprwy ac anfonwch hi i'ch tîm etholiadau lleol.


Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Penderfynu ar y ffordd orau o bleidleisio

I gael gwybod sut i gysylltu â'ch tîm etholiadau lleol, ewch i www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr

Sut i lenwi papur pleidleisio mewn etholiadau cyngor lleol

Byddwch chi'n cael un papur pleidleisio.



Rhowch 'X' yn y blwch nesaf at enw'r person rydych chi am bleidleisio drosto. Pan gaiff y pleidleisiau eu cyfrif, bydd y person gyda'r nifer mwyaf o bleidleisiau yn cael ei ethol ac yn eich cynrychioli chi a'ch ardal leol.

Bydd mwy nag un cynghorydd yn eu cynrychioli mewn rhai ardaloedd. Efallai y gallwch bleidleisio dros fwy nag un person. Bydd y papur pleidleisio yn dweud ar gyfer sawl person y gallwch chi bleidleisio. Bydd staff yr orsaf bleidleisio yn fodlon helpu.

Angen help? Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar wefan Mencap: www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr etholiad, gallwch ffonio llinell gymorth Mencap ar 0808 8000 300.



Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300



Y
Comisiwn
Etholiadol

Gwybodaeth Cyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300